Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Effaith cyllid 'datgloi'r potensial' ar hyrwyddo'r defnydd o ysgolion arbennig fel canolfannau adnoddau â ffocws cymunedol

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

EBRILL 2009

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad 1

Cefndir 3

Prif ganfyddiadau 4

Argymhellion 6

Pa mor dda y mae awdurdodau addysg lleol ac ysgolion wedi ymateb i'r cyllid? 8

Pa mor effeithiol y mae'r prosiectau wedi bod yn hyrwyddo ysgolion arbennig fel canolfannau adnoddau? 13

Beth sydd wedi gweithio'n arbennig o dda? 15

Beth sydd ddim wedi gweithio cystal? 17

Atodiad 1: Astudiaethau achos yn dangos arfer dda

Geirfa

Tîm arolwg yr adroddiad cylch gwaith

Cyflwyniad

1 Diben y papur hwn yw ymateb i gais oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chylch gwaith Gweinidogol blynyddol i Estyn ar gyfer adolygu effaith cyllid ‘datgloi’r potensial’ gyda ffocws penodol ar ba mor effeithiol y mae wedi bod wrth helpu ysgolion arbennig i ddatblygu eu rôl mewn awdurdodau lleol (ALlau) fel canolfannau adnoddau â ffocws cymunedol.

2 Fel rhan o’i strategaeth i godi safonau ar gyfer grwpiau sydd dan anfantais, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trefnu bod £5.1 miliwn ar gael dros gyfnod o dair blynedd, yn dechrau ym mis Medi 2006, ar gyfer y 22 ALl yng Nghymru i sefydlu ystod eang o brosiectau peilot ar gyfer ysgolion arbennig. Cyfeirir at y cyllid hwn fel: ‘Datgloi potensial yr ysgol arbennig’. Nod y cyllid yw hyrwyddo cynhwysiad pellach a datblygu rôl yr ysgol arbennig wrth nodi a lledaenu arfer dda.

3 Nod y cyllid yw hyrwyddo’r defnydd o ysgolion arbennig fel canolfannau adnoddau â ffocws cymunedol, i gefnogi ystod o weithgareddau ar y cyd fel cynllunio trosiannol ôl-16 a chymorth a darpariaeth amlasiantaethol.

4 Yn ystod y cyfnod rhwng 2006 a 2009, gofynnwyd am geisiadau am gyllid i ddatgloi potensial ysgolion arbennig gan ALlau mewn cydweithrediad ag ysgolion arbennig. Ymatebodd pob ALl gyda cheisiadau i ariannu cynigion ar gyfer ystod eang o brosiectau, gan gynnwys:

- cymorth ar gyfer unigolion mewn lleoliadau prif ffrwd – cyngor ac arweiniad ar gyfer ysgolion prif ffrwd;
- cyflwyno hyfforddiant – ffurfiol ac anffurfiol i ystod o leoliadau a gwasanaethau;
- modelu a hyfforddi – staff prif ffrwd a staff arbenigol yn gweithio gyda’i gilydd i wella eu medrau a’u gwybodaeth;
- rhannu adnoddau arbenigol – fel offer arbenigol a chymhorthion cyfathrebu er mwyn galluogi disgyblion i gael mynediad at y cwricwlwm;
- gweithio gyda rhieni/gofalwyr a gofalwyr – gan roi cymorth, cyngor ac arweiniad;
- cymorth a darpariaeth amlasiantaethol – gweithio gyda’r asiantaethau statudol a gwirfoddol i gynyddu capasiti a diwallu anghenion cyfannol eu disgyblion; a
- threfniadau trosglwyddo gwell adeg ôl-16 – gweithio gyda sefydliadau AB a datblygu cyfleoedd dysgu yn y gwaith mewn cydweithrediad â busnesau lleol.

5 Gallai awdurdodau lleol nad oes ganddynt ysgol arbennig gyflwyno cynigion i rannu arbenigedd yn rhanbarthol neu ddatblygu rôl ar gyfer canolfan adnoddau sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd.

6 Maen prawf arall ar gyfer gwneud cais am gyllid oedd y byddai prosiectau yn rhan o agenda gwella ysgolion ehangach yr awdurdodau lleol, gan anelu at gefnogi system addysg gynhwysol o’r safon uchaf trwy weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill.

7 Fe wnaeth un ALl gynnwys y detholiad canlynol o weithgareddau yn ei waith wrth ddatgloi potensial yr ysgolion arbennig. Mae’r rhestr hon yn rhoi rhyw argraff o’r ystod amrywiol o waith y mae ysgolion arbennig yn ei wneud ar draws awdurdod lleol:

- cefnogi rhieni/gofalwyr plant cyn-ysgol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wrth ddatblygu medrau chwarae;
- ystod o waith allymestyn gan yr ysgol arbennig i gynyddu capasiti ysgolion prif ffrwd i weithio gyda disgyblion ag anghenion cymhleth fel anhwylder sbectrwm awtistig ac anawsterau ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol (AYECh);
- dyfeisio rhaglen llythrennedd strwythuredig ar gyfer disgyblion prif ffrwd ar lefel 1;
- prosiect rhianta ar gyfer disgyblion mewn ysgol arbennig a chanolfannau adnoddau sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd;
- prosiect ailintegreiddio a throsglwyddo i gefnogi disgyblion ysgol gynradd arbennig, sydd ag AYECh, sy’n ymuno ag ysgol uwchradd prif ffrwd;
- cynghori i gefnogi disgyblion sy’n trosglwyddo o ysgolion prif ffrwd i ysgol arbennig; a
- gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu cwricwlwm amgen a lleoliadau gwaith eraill ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu.

8 Rhwng mis Hydref 2008 a mis Rhagfyr 2008, cynhaliodd Estyn arolwg o effaith y cyllid ar awdurdodau lleol ac ysgolion arbennig ledled Cymru. Anfonodd arolygwyr holiaduron cynhwysfawr i bob ALl ac ysgol arbennig a oedd yn gysylltiedig â’r cynllun peilot cyllid. Ymatebodd deunaw ALl a’u 34 ysgol arbennig ac un uned awtistiaeth. Nid oes gan un o’r ALlau hyn ysgol arbennig. Ymwelodd arolygwyr hefyd â sampl gynrychioliadol o chwe awdurdod addysg lleol. Fe wnaethant gynnal trafodaethau gydag uwch swyddogion ac ymweld ag ystod o ysgolion arbennig. Yn ystod eu hymweliadau, cyfarfu arolygwyr â’r penaethiaid, yr athrawon a’r disgyblion a’r partneriaid ysgolion prif ffrwd lle’r oedd modd.

Cefndir

9 Dros ddegawd yn ôl, cyflwynodd Y Gorau ar gyfer Addysg Arbennig[1] a Llunio Dyfodol Addysg Arbennig[2] rôl newidiol ar gyfer ysgolion arbennig. Roedd y dogfennau polisi hyn yn cydnabod bod angen i ysgolion arbennig ddod yn 'ganolfannau rhagoriaeth' a gweithio'n llawer agosach gydag ysgolion prif ffrwd a chyda gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

10 Yn fwy diweddar, mae Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2002 yn pwysleisio'r ffaith fod gan bob plentyn a pherson ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) hawl i addysg prif ffrwd. Mae Cod Ymarfer AAA Cymru (2002) yn cynghori y dylid mabwysiadu ystod o strategaethau i annog arfer gynhwysol mewn ysgolion.

11 Mae angen ymrwymiad ysgolion ac ALlau ar gyfer addysg gynhwysol i ddatblygu polisïau ac arferion sy'n sicrhau cyfle a mynediad addysgol cyfartal, sy'n diogelu disgyblion sy'n agored i niwed ac yn canolbwyntio ar wella cyflawniad pob dysgwr ac yn cynyddu eu cyfranogiad mewn ysgolion a chymunedau lleol[3].

12 Mae Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhif: 47/2006 yn datgan y bydd mwyafrif y plant a'r bobl ifanc yn mynychu eu hysgol prif ffrwd leol. Fodd bynnag, bydd ysgolion arbennig a darpariaeth ag adnoddau sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd yn parhau i fod â rôl bwysig ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sydd angen cymorth arbenigol a phenodol iawn.

13 Yn fras, mae gan ysgolion arbennig yr un dyletswyddau a chyfrifoldebau ag ysgolion eraill. Yr hyn sy'n eu gwneud yn wahanol yw'r ffaith bod gan bron pob un o'r disgyblion ynddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan ysgolion arbennig gymhareb is o staff addysgu i ddisgyblion, ac ystod ehangach o ymarferwyr a staff cymorth eraill, i helpu diwallu anghenion unigol disgyblion sydd wedi'u nodi yn y datganiadau.

14 Fodd bynnag, er mwyn i ysgolion arbennig fod yn rhan lawn o system gynhwysol, cydnabuwyd bod angen iddynt ddod yn rhan annatod o wasanaeth lleol sydd yno i ddiwallu ystod ehangach o anghenion[4]. Mae polisïau diweddar y llywodraeth ledled y DU wedi ceisio gwella rôl ysgolion arbennig er mwyn iddynt ddod yn ganolfannau rhagoriaeth hyderus a blaengar, sy'n adeiladu ar eu cryfderau, fel rhan annatod o system addysg gynhwysol ar gyfer disgyblion yn eu hardaloedd a thu hwnt.

15 Mae hyn yn golygu bod angen i staff weithio'n fwy hyblyg a gweithredol gydag ysgolion prif ffrwd i gynllunio cymorth ar gyfer disgyblion a allai elwa ar leoliad prif

[1] Y Gorau ar gyfer Addysg Arbennig, Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1997
[2] Llunio Dyfodol Addysg Arbennig, Cynllun gweithredu ar gyfer Cymru 1999
[3] Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Cylchlythyr Arweiniad Cynhwysiad Cymdeithasol, Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhif: 47/2006: Tachwedd 2006
[4] Datganiad Sefyllfa ar Ddarpariaeth Arbenigol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Cymorth Ychwanegol, Y Gymdeithas Genedlaethol dros Anghenion Addysgol Arbennig, Mawrth 2008

ffrwd a gweithredu fel ffynhonnell arbenigedd, cyngor a datblygiad proffesiynol ar gyfer cydweithwyr prif ffrwd[5].

[5] Adeiladu partneriaethau. Gweithio i ddatblygu gwasanaethau estynedig ac ysgolion â ffocws cymunedol mewn ysgolion arbennig ac o'u cwmpas, ContinYou Cymru 2008

Prif ganfyddiadau

16 Mae cynllun peilot ‘datgloi’r potensial’ wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae llawer o enghreifftiau o arfer dda a manteision yn deillio o’r cyllid. Mae ychydig iawn o achosion lle nad yw’r prosiectau wedi gweithio cystal ag y dylent. Os bydd rhagor o gyllid ar gael, er mwyn cyflawni’r manteision gorau posibl o’r fenter hon, mae’r meysydd i’w gwella yn bennaf mewn rheoli strategol a monitro ac arfarnu.

17 Mae ‘datgloi’r potensial’ mewn cyllid ysgolion arbennig wedi codi ymwybyddiaeth am yr arbenigedd sy’n bodoli mewn ysgolion arbennig, gan hyrwyddo cyfnewid medrau rhwng staff ysgolion arbennig a staff ysgolion prif ffrwd. Mae’r cyllid hefyd wedi cynyddu cydweithio rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol ar draws ffiniau traddodiadol. Fodd bynnag, er bod rhai enghreifftiau da o ALlau ac ysgolion yn rhannu’r arfer dda o’r prosiectau, at ei gilydd, mae’r rhan fwyaf o staff yn gwneud y gwaith gwerthfawr hwn ar wahân ac nid ydynt yn gwybod digon am yr hyn sy’n gweithio’n dda yn y prosiectau ledled Cymru.

18 Mae rhaglenni allymestyn a hyfforddi penodol wedi bod yn gryfder nodedig. Mae’r defnydd o staff ysgolion arbennig i ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion prif ffrwd yn effeithiol ac yn effeithlon. Yn y 18 ALl a ymatebodd i’n holiadur, roedd dros ddau o bob tri o’r prosiectau mewn 34 ysgol arbennig yn canolbwyntio ar waith allymestyn a hyfforddi staff prif ffrwd i wneud darpariaeth well ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r prosiectau wedi cyrraedd dros 1,400 o ddisgyblion. Mae’r cynllun peilot wedi gwneud cyfraniad pwysig at adeiladu capasiti staff ysgolion prif ffrwd i wella eu darpariaeth ar gyfer eu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a bod yn llai dibynnol ar weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill. Mae staff a rhieni ysgolion prif ffrwd wedi elwa ar ystod eang iawn o hyfforddiant a ddarperir gan staff ysgolion arbennig ac, mewn rhai achosion, cynigiwyd yr hyfforddiant hwn i asiantaethau eraill yn yr awdurdod lleol. Ceir enghreifftiau da iawn o ddisgyblion sydd wedi cael cymorth mor dda gan y staff ysgolion arbennig fel eu bod yn gallu cynnal eu lle yn eu hysgol prif ffrwd.

19 Mae ysgolion arbennig sy’n gysylltiedig â’r cynllun peilot wedi gwneud cynnydd da tuag at ddod yn ganolfannau adnoddau sy’n cynnig hyfforddiant, adnoddau priodol mewn lleoliad canolog, yn modelu arfer dda ac yn rhoi cyngor ac arweiniad i unigolion a grwpiau ar draws yr awdurdod, mewn addysg ac yn y gymuned ehangach. Mae staff ysgolion arbennig wedi elwa ar y cyfle i rannu eu harbenigedd ac mae hyn wedi golygu eu bod yn teimlo’n rhan o’u cymuned addysg leol ac yn teimlo bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi gan eraill. Maent hefyd wedi ennill arbenigedd cwricwlwm o’u cysylltiadau cryfach â chydweithwyr prif ffrwd. Fodd bynnag, mae nifer fach iawn o’r prosiectau wedi cael eu cyfyngu i ysgolion arbennig a’u disgyblion.

20 Mae staff wedi ymrwymo i’r defnydd o gyllid ac maent yn frwdfrydig amdano. Mae hyn yn aml wedi rhoi cyfle iddynt naill ai ymestyn y gwaith presennol neu roi syniadau a gafwyd ers tro ar waith. Mae llawer o dystiolaeth anecdotaidd bod y cyllid hwn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ganlyniadau addysgol a chymdeithasol unigolion a grwpiau o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd a bod llawer o’r gwelliannau mewn perthnasoedd ac ymddiriedaeth rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd bellach yn sefydledig ac yn barhaol.

21 Mae’r disgyblion mewn ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd a gymerodd ran yn y cynllun peilot wedi elwa ar gael cyswllt cynyddol â’i gilydd. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth ehangach o anabledd a chyfleoedd gwell ar gyfer disgyblion mewn ysgolion arbennig. Mae canlyniadau pwysig wedi digwydd yn sgil y cyswllt gwell, sydd wedi arwain at gyfleoedd cynyddol i ddisgyblion a staff weithio a chymdeithasu â’i gilydd. Ceir enghreifftiau da o brosiectau sydd wedi gwella trefniadau trosglwyddo ar gyfer disgyblion, yn y cyfnod cyn-16 ac ôl-16. Mae hyn wedi lleihau’r straen i ddisgyblion a’u rhieni/gofalwyr. Mae rhieni/gofalwyr hefyd wedi elwa ar y wybodaeth well a gânt o ganlyniad i lawer o’r prosiectau.

22 Yn y lleiafrif bach iawn o brosiectau nad oeddent wedi gweithio cystal ag y gallent fod wedi gwneud, roedd hyn oherwydd nad oedd y cyllid wedi cael ei reoli na’i ddyrannu’n ddigon gofalus yn unol â nodau ac amodau’r grant. Mae’r rhan fwyaf o’r meysydd ar gyfer gwella yn ymwneud â rheoli’r cyllid a monitro ac arfarnu. Er gwaethaf adroddiadau cynnydd ac adborth rheolaidd i ALlau gan ysgolion arbennig, nid yw’r prosiectau yn cael eu monitro a’u harfarnu yn ddigon trylwyr.

23 Yn gyffredinol, mae ALlau yn gwneud defnydd da o’r cyllid i ddefnyddio arbenigedd ysgolion arbennig a datblygu a gweithredu polisi cynhwysiad yr ALl. Yn aml, mae’r cyllid wedi galluogi ALlau ac ysgolion arbennig i ymestyn arfer dda sydd eisoes yn bodoli a rhoi cynnig ar syniadau newydd ar gyfer gwella’r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw’r defnydd o’r cyllid hwn bob amser yn cael ei olrhain yn glir yn y cynlluniau newydd i blant a phobl ifanc.

24 Mae llawer o’r prosiectau wedi cynnwys ystod eang o weithwyr proffesiynol ond ni chafwyd ffocws digon cryf ar gymorth a darpariaeth amlasiantaethol ar draws y cynllun peilot. Nid oedd unrhyw un o’r prosiectau yn canolbwyntio’n benodol ar weithio gyda’r asiantaethau statudol a gwirfoddol er mwyn cynyddu capasiti a diwallu anghenion cyfannol eu disgyblion.

25 Nid yw rhai ALlau wedi ymgynghori â phob un o’u hysgolion arbennig nac wedi’u cynnwys yn y modd y defnyddir y cyllid. Lle mae ysgolion arbennig wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot ond heb ryw lawer o ymgynghori, mae hyn wedi arwain at synnwyr cyfyngedig o berchnogaeth o’r prosiect.

26 Mae cymhlethdod arfarnu canlyniadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a’r ystod eang o brosiectau yn ei gwneud yn anodd i ALlau ac ysgolion arbennig arfarnu pa mor dda y mae’r prosiectau yn effeithio ar ganlyniadau disgyblion yn gyffredinol.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 ystyried y defnydd o gytundebau lefel gwasanaeth rhwng ALlau ac ysgolion arbennig i arwain a monitro’r defnydd o gyllid ‘datgloi’r potensial’ yn y dyfodol;

A2 gofyn i ALlau ac ysgolion lunio strategaethau ymadael cyn cael mwy o gyllid;

A3 atgoffa ALlau a staff o’r angen i gadw at amodau gofynion cyllid penodol Llywodraeth Cynulliad Cymru;

A4 ei gwneud yn ofynnol i arfarniadau prosiect gynnwys manteision penodol a mesuradwy; a

A5 rhannu gwybodaeth ac arfer orau mewn perthynas â ‘datgloi’r potensial’ yn fwy effeithiol mewn ALlau a rhyngddynt.

Dylai awdurdodau lleol:

A6 sicrhau rheolaeth strategol fwy llym ar y cyllid trwy wneud yn siŵr bod:

- ysgolion yn sôn am fanteision mwy penodol a mesuradwy’r gwaith;
- gan bob rheolwr ysgol arbennig ddealltwriaeth glir o sut dylid defnyddio’r cyllid a’r canlyniadau a fwriedir; a bod
- y defnydd o’r cyllid hwn yn cael ei olrhain yn glir yng nghynlluniau plant a phobl ifanc awdurdodau lleol;

A7 gweithio’n agosach gydag ysgolion i gynllunio eu strategaethau ymadael neu ffyrdd o ymgorffori dulliau llwyddiannus o weithio yn eu gwaith yn y dyfodol;

A8 annog ysgolion i gynnwys asiantaethau eraill yn yr awdurdod wrth gwmpasu eu prosiectau; a

A9 chynnwys pob ysgol arbennig wrth gynnig, cynllunio a gweithredu’r prosiectau.

Dylai ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd:

A10 gynllunio’n fwy systematig i gynnal manteision ‘datgloi’r potensial’ yng ngweithgareddau ysgolion arbennig y tu hwnt i gyfnod y cyllid;

A11 gwneud yn siwr eu bod yn defnyddio ‘datgloi’r potensial’ yng nghyllid yr ysgol arbennig mewn ffyrdd sy’n cynnig mantais uniongyrchol i ddisgyblion a staff ysgolion arbennig a phrif ffrwd;

A12 monitro’r prosiectau yn agos a mesur eu manteision i ddisgyblion a staff;

A13 cwmpasu eu prosiectau yn ehangach i gynnwys asiantaethau eraill yn yr awdurdod; a

A14 chynllunio strategaethau ymadael neu ffyrdd o ymgorffori dulliau llwyddiannus o weithio yn eu gwaith yn y dyfodol.

Pa mor dda y mae awdurdodau addysg lleol ac ysgolion wedi ymateb i’r cyllid?

Gwella datblygu rôl yr ysgolion arbennig

27 Yn gyffredinol, mae ysgolion arbennig wedi bod yn frwdfrydig ac yn ymroddgar iawn i wneud y defnydd gorau o’r cyllid hwn er mwyn datblygu ystod eang o brosiectau arloesol sydd wedi’u cynllunio i wella canlyniadau ar gyfer disgyblion a gwneud cysylltiadau cryfach gydag ysgolion prif ffrwd. Mae hyn wedi arwain at gryn dipyn o gyfnewid medrau. Er enghraifft, mae ysgolion arbennig wedi cael mwy o gyswllt ag arbenigwyr pwnc i gefnogi’r cwricwlwm ar gyfer eu disgyblion mwy abl ac mae ysgolion prif ffrwd wedi cael cyngor ac arweiniad ynglŷn â sut i wella canlyniadau ar gyfer eu disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

28 Mae defnyddio cyllid ‘datgloi’r potensial’ wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar lawer o ysgolion arbennig ac ar yr hyn sydd yn aml wedi cael ei ystyried yn sefyllfa arunig yn yn narpariaeth awdurdodau lleol ac mewn perthynas â lleoliadau prif ffrwd. Dywedodd un swyddog ALl am yr ysgol arbennig: ‘Mae pobl yn dod i mewn ac allan yr holl amser nawr a dyma sut dylai fod’. Mae ysgolion arbennig wedi gwneud cysylltiadau cryf ag ysgolion prif ffrwd eraill ac o ganlyniad mae twf nodedig yn eu dealltwriaeth o waith ei gilydd. Ceir mwy o ymddiriedaeth rhwng llawer o ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd a gwaith partneriaeth gwell.

29 Mae’r berthynas well hon yn nodi newid mawr mewn diwylliant. Yn gyffredinol, mae staff mewn ysgolion arbennig yn dechrau teimlo bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi ac mae’r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn fwy. Mae’r rhan fwyaf o ymatebwyr i’n holiadur yn teimlo bod y cyllid wedi grymuso staff ysgolion arbennig ac wedi rhoi cyfle calonogol iddynt i roi syniadau hirsefydledig ar gydweithio ar waith.

30 Mae’r prosiectau yn aml wedi arwain at fanteision eraill i staff a disgyblion yn yr ysgolion arbennig a’r ysgolion prif ffrwd hefyd. Er enghraifft, o ganlyniad i wasanaeth allymestyn un ysgol arbennig ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion cymhleth mewn ysgolion uwchradd, fe wnaeth staff o’r ysgolion arbennig ac wedyn yr ysgolion prif ffrwd weithio gyda’i gilydd ar brosiect diwylliannol ar y cyd rhwng athrawon a disgyblion yn Tansanïa. Roedd hyn yn golygu bod disgyblion yr ysgol arbennig yn elwa ar gyfle da iawn i ehangu eu gorwelion.

31 Cyn y cyllid, roedd llawer o ysgolion arbennig wedi mynegi eu bod yn dymuno sefydlu ffyrdd gwell o weithio gydag ysgolion prif ffrwd. Cafwyd ceisiadau cyfyngedig i ddechrau’r gwaith gwerthfawr hwn. Roedd hyn yn aml yn cynnwys gweithio ar sail ymgynghorol ond ni ellid rhyddhau staff ysgolion arbennig i gefnogi ac ymuno â gweithgareddau parhaus er lles staff a disgyblion prif ffrwd. Nid oedd ganddynt yr adnoddau oedd eu hangen arnynt ac fe gawsant anhawster yn perswadio eu hysgolion prif ffrwd lleol bod ganddynt yr arbenigedd i gyfrannu at gymorth gwell ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a’u teuluoedd.

32 Gyda’r cyllid hwn, mae ysgolion arbennig wedi cael cyfle i godi ymwybyddiaeth mewn ysgolion prif ffrwd am yr adnoddau a’r cymorth sydd ar gael iddynt, ac mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi manteisio arnynt. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol prif

ffrwd yn croesawu'r cymorth hwn yn enwedig mewn perthynas â disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol oherwydd nid yw staff bob amser yn disgwyl bod yn rhaid iddynt weithio gyda'r disgyblion hyn.

33 Yn gyffredinol, mae ALlau yn gwneud defnydd da o'r cyllid i ddefnyddio'r arbenigedd sydd eisoes yn bod mewn ysgolion arbennig er mwyn datblygu a gweithredu eu polisïau cynhwysiad. Mae llawer o brosiectau yn cynnwys gwaith allymestyn gan staff ysgolion arbennig sy'n galluogi disgyblion i aros yn eu hysgol prif ffrwd gyda chymorth o ansawdd da. Mae'r cymorth allymestyn hwn nid yn unig o fantais uniongyrchol i ddisgyblion unigol ond mae hefyd yn cyfrannu at adeiladu capasiti staff ysgolion prif ffrwd i wella eu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, dywedodd un pennaeth ysgol uwchradd eu bod yn gwerthfawrogi'r sicrwydd gan y gweithiwr allymestyn ysgolion arbennig eu bod yn 'gwneud y peth cywir' gyda'r disgyblion ag anghenion llai cymhleth.

34 Fodd bynnag, er gwaethaf llawer o enghreifftiau o arfer dda a gweithio arloesol o ganlyniad i'r cyllid, nid yw'r wybodaeth werthfawr hon yn cael ei rhannu'n ffurfiol mewn ALlau a'u hysgolion neu ledled Cymru.

Annog cymorth a darpariaeth amlasiantaethol

35 Ceir rhai enghreifftiau da iawn o weithio gwell ar draws ffiniau proffesiynol mewn ALl. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r cynlluniau peilot yn cael eu cwmpasu'n ddigon eang i gynnwys asiantaethau eraill yn yr ALlau. Mae llawer o'r prosiectau yn cynnwys asiantaethau eraill. Fodd bynnag, mae'r cydweithio hwn yn aml yn digwydd mwy trwy weithredu prosiect ar ei ben ei hun yn hytrach nag o ganlyniad i nod penodol i wella'r gweithio rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd ac asiantaethau eraill ar draws awdurdod neu ddarpariaeth ar y cyd. Dim ond ychydig o brosiectau sy'n datgan yn benodol mai un o nodau'r prosiect yw gwella'r cydweithio rhwng asiantaethau a gwasanaethau ar draws yr awdurdod.

36 Mae prosiectau sydd wedi'u cynllunio i wella mynediad ar gyfer disgyblion at therapi lleferydd ac iaith, dealltwriaeth o'r anhwylder sbectrwm awtistig (ASA) a phrosiectau ar drosglwyddo gwell, yn aml yn cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn cynnwys:

- gweithwyr iechyd proffesiynol fel maethegwyr cymunedol a nyrs cymorth ymataliad;
- therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol;
- ymgynghorwyr Gyrfa Cymru;
- sefydliadau gwirfoddol;
- gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS); a
- gwasanaethau cymdeithasol.

37 Mae un ALl a'i ysgol arbennig wedi defnyddio'r cyllid yn dda i sefydlu un gwasanaeth cydlynus i gefnogi disgyblion ag ASA ac anhwylderau cyfathrebu ac ymddygiad eraill a'r bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda nhw. Un o nodau'r prosiect yw gweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a sefydliadau gwirfoddol i ddatblygu dulliau rhwng asiantaethau. Mae hyn yn cynnwys denu adnoddau o'r partneriaid hyn i ddatblygu'r gwasanaethau ymhellach.

38 Mae prosiect mewn ALl arall yn darparu dau weithiwr cymdeithasol addysg ar gyfer dwy ysgol arbennig. Eu rôl yw gweithredu fel gweithwyr cyswllt rhwng asiantaethau fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol, CAMHS, y tîm troseddau ieuenctid (TTI) a theuluoedd. Eu rheolwyr llinell yw penaethiaid yr ysgolion arbennig ond cânt eu goruchwylio gan y gwasanaethau cymdeithasol.

39 Roedd tair ysgol arbennig mewn ALl arall yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ysgolion prif ffrwd a rhieni/gofalwyr i ddatblygu strategaethau cytûn ar gyfer trafod â llaw.

40 Mae un ysgol arbennig yn gweithio'n agos gyda'r tîm troseddau ieuenctid (TTI) i adeiladu gardd heddwch. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd da i bobl ifanc sy'n troseddu wneud iawn i'r gymuned ac mae'n cefnogi gweithwyr TTI sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i gyfleoedd ystyrlon i wneud iawn. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys hyfforddi staff mewn dinasyddiaeth amgylcheddol, garddwriaeth a thirweddu.

41 Ceir enghreifftiau da o weithio gwell gyda gwasanaethau iechyd mewn rhai ALlau er nad yw hyn yn digwydd yn aml. Daeth un prosiect lleferydd ac iaith arfaethedig i ben oherwydd y problemau gyda'r awdurdod iechyd ynglŷn â darparu therapydd lleferydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r canfyddiad yn adroddiad Estyn yn 2007 i'r graddau mai golwg gymharol gyfyng a gaiff adrannau awdurdodau lleol ar waith amlasiantaethol. Yr hyn sydd fwyaf cyffredin yw'r ffaith nad oes ganddynt drefniadau partneriaeth effeithiol gyda gwasanaethau iechyd cymunedol a gwasanaethau cymdeithasol[6].

Gwella'r wybodaeth ar gyfer rhieni/gofalwyr a gofalwyr

42 Mae'r cyllid wedi galluogi llawer o ysgolion arbennig i gynnig cymorth mwy penodol i rieni/gofalwyr. Mae gan rieni/gofalwyr rôl hanfodol yn addysg a lles eu plant, ac mae gan ysgolion arbennig berthynas dda iawn yn gyffredinol gyda rhieni/gofalwyr. Mae'r cyllid wedi galluogi ysgolion arbennig i roi mwy o wybodaeth i rieni/gofalwyr a'u cynnwys mewn hyfforddiant, er enghraifft, wrth ddefnyddio therapïau penodol a chyfathrebu estynedig fel Makaton, y system cyfnewid lluniau (PECS) a'r dull synhwyraidd. O ganlyniad, mae rhieni/gofalwyr yn fwy hyderus yn cyfathrebu â'u plant ac yn ymgysylltu â nhw.

43 Mae un uned ar gyfer disgyblion awtistig a'i ALl yn cynnig rhaglenni 'Earlybird plus' ar gyfer rhieni/gofalwyr disgyblion 4-8 oed sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth yn ddiweddar. Mae'r rhaglenni hyn yn mynd i'r afael ag anghenion lleoliadau cartref ac ysgol trwy hyfforddi rhieni/gofalwyr ynghyd â gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda'u plentyn yn rheolaidd. Gall rhieni/gofalwyr hefyd weithio gyda gweithiwr proffesiynol o'u dewis eu hunain i'w cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae rhieni/gofalwyr sydd â phlant yn yr uned hon hefyd yn elwa ar hyfforddiant mewn defnyddio'r system cyfnewid lluniau (PECS) i gyfathrebu â'u plant.

[6] 'Darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau â ffocws cymunedol gan ysgolion', Estyn, 2007

44 Mae un ysgol arbennig ar gyfer disgyblion 3-19 oed wedi gweithio gyda fforwm blynyddoedd cynnar yr ALl, gweithwyr iechyd a'r gwasanaeth gwirfoddol i sefydlu canolfan deuluol leol yr oedd ei hangen yn fawr i ddarparu ar gyfer teuluoedd. Mae'r ganolfan yn lleoliad gwerthfawr ac yn darparu rhaglen o weithgareddau i gefnogi ymgysylltiad rhieni/gofalwyr â'u plant, sydd ag anghenion dysgu cymhleth. Mae hyn yn lleihau arwahanrwydd rhieni yn llwyddiannus ac yn rhoi cyfleoedd anffurfiol iddynt gyfarfod a siarad â theuluoedd eraill sy'n wynebu heriau tebyg. Gall rhieni/gofalwyr hefyd gael cymorth un i un, gweithio mewn grwpiau bach er mwyn dysgu sut i ddefnyddio therapi cyffwrdd, storïau synhwyraidd, cerdd a dawns a gweithgareddau bwrdd cyseinedd. Roedd rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio'r rhaglen weithgareddau.

45 Mae dwy ysgol arbennig wedi gweithio gyda'i gilydd i sefydlu grŵp cymorth gwerthfawr ar gyfer rhieni/gofalwyr sy'n cyfarfod unwaith y mis. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys rhieni/gofalwyr y mae eu plant yn mynychu canolfannau adnoddau sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd. Mae aelod o staff mewn un o'r ysgolion yn llunio cylchlythyr ar gyfer rhieni/gofalwyr a bydd yn chwilio am wybodaeth ar ran y rhieni/gofalwyr. Caiff y rhieni hyn gymorth penodol yn y cyfnod trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3 ac wrth i'w plant adael yr ysgol hefyd.

46 Mae ysgolion arbennig mewn dau ALl wedi cynnal cyrsiau dydd llwyddiannus i roi gwybodaeth am Syndrom Down ac mae ysgol arbennig wedi cynnal cwrs ar gyfer rhieni/gofalwyr ar addysg ryw ar gyfer plant ag anawsterau dysgu.

47 Mae tri ALl arall wedi defnyddio'r cyllid i wella eu cymorth ar gyfer rhieni/gofalwyr. Mae un ALl wedi ehangu ei wasanaeth allymestyn i gynnwys gweithdai a sesiynau unigol ar gyfer rhieni/gofalwyr yn un o'i ysgolion arbennig. Mae ysgol arbennig arall wedi cynnig hyfforddiant amlasiantaethol ffurfiol a gwybodaeth i rieni/gofalwyr mewn materion fel ffisiotherapi a medrau rhianta. Gall rhieni hefyd gael cyngor ar faterion pwysig fel cyfryngdod ac asesu. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynllunio'n ofalus i helpu rhieni gael mwy o rôl yn y broses asesu a gwneud penderfyniadau.

Y gwelliant mewn trefniadau trosglwyddo yn y cyfnod cyn-16 ac ôl-16

48 Mae rhai ysgolion wedi defnyddio 'datgloi'r potensial' o'r cyllid ysgolion arbennig yn llwyddiannus i wella'r cymorth cynlluniedig a strwythuredig ar gyfer disgyblion wrth symud i ysgolion uwchradd neu oddi yno. Mae'r cymorth hwn yn helpu disgyblion i drosglwyddo'n ddidrafferth ac yn achosi llai o straen iddynt.

49 Mae un ysgol arbennig wedi gweithio gydag ysgol prif ffrwd leol i gynhyrchu adnoddau teilwredig ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ysgol uwchradd. Roedd angen gwaith medrau bywyd mwy ymarferol ar y disgyblion hyn er mwyn eu helpu i drosglwyddo'n fwy didrafferth i addysg bellach neu gyflogaeth. Mae'r gwaith hwn yn arwain at achrediad.

50 Mae ysgol arbennig arall wedi defnyddio'r cyllid yn dda i sefydlu dosbarth trosglwyddo llwyddiannus ar gyfer disgyblion sy'n mynychu canolfan adnoddau cynradd sydd ynghlwm wrth ysgol prif ffrwd er mwyn eu helpu i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol uwchradd prif ffrwd. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn modd arbenigol ac maent yn mynychu rhwng 10% a 50% o'r gwersi yn yr ysgol uwchradd. Mae'r dosbarth yn cynnig diogelwch a chymorth mewn grŵp bach ond hefyd yn galluogi disgyblion i fynychu dosbarthiadau prif ffrwd.

51 Mae disgyblion mewn ysgol arbennig arall yn elwa ar gymorth gweithiwr allymestyn trosglwyddo a ariennir gan gyllid ‘datgloi’r potensial’ yr ysgol arbennig. Mae’r gweithiwr hwn yn helpu disgyblion i symud i mewn ac allan o’r ysgol arbennig trwy gynllunio cyfleoedd cynhwysiad, ysgrifennu cynlluniau ail integreiddio a chynnig cymorth mentora.

Pa mor effeithiol y mae'r prosiectau wedi bod yn hyrwyddo ysgolion arbennig fel canolfannau adnoddau?

52 Lle mae'r cynllun peilot wedi gweithio'n arbennig o dda, mae ysgolion arbennig wedi croesawu'n llawn y cysyniad o ddod yn ganolfan adnoddau neu'n ganolfan ragoriaeth leol, ac mae'r prosiectau'n cynnig hyfforddiant a chyswllt gwell â staff ysgolion arbennig ac adnoddau mewn lleoliad canolog.

53 Mae defnyddio cyllid 'datgloi'r potensial' wedi rhoi mynediad gwell a mwy uniongyrchol i ysgolion prif ffrwd at gyngor, cymorth a hyfforddiant o ffynhonnell arbenigedd leol, sef yr ysgol arbennig. Dywedodd un ymatebwr i'n harolwg fod y cyllid wedi achosi i ysgolion prif ffrwd ofyn am fwy o gymorth yn amlach ac nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn fethiant pan fyddant yn gofyn am gymorth.

54 Gyda chynhwysiad cynyddol, mae gan lawer o ysgolion prif ffrwd bryderon am eu canfyddiad o gynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n mynychu ag anghenion dysgu ychwanegol a pha mor gymhleth yw eu hanghenion. Yn aml, nid oes gan athrawon yr hyder i ddiwallu'r anghenion hyn. Hefyd, mae'r cymorth a amlinellir yn natganiadau disgyblion yn aml yn dibynnu gormod ar ddarparwyr allanol ac nid yw bob amser yn disgwyl i ysgolion lleol ddiwallu'r anghenion hyn. Mae defnyddio cyllid 'datgloi'r potensial' wedi helpu llawer o athrawon prif ffrwd i ddiwallu'r anghenion hyn 'yn fewnol' yn hytrach na bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth gan bobl broffesiynol eraill.

55 Mae llawer o'r prosiectau yn cynnwys gwaith allymestyn, lle caiff staff o'r ysgolion arbennig eu rhyddhau o addysgu er mwyn i ysgolion prif ffrwd allu manteisio ar eu harbenigedd. Mae hyn yn golygu bod ysgolion arbennig yn cael eu defnyddio fel adnodd gwerthfawr ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac mewn rhai achosion, ar gyfer asiantaethau eraill a'r gymuned ehangach.

Rhoi cyngor ac arweiniad i leoliadau prif ffrwd

56 Mae llawer o ALlau wedi defnyddio cyllid 'datgloi'r potensial' yn llwyddiannus i ehangu a gwella eu gwaith allymestyn. Mewn llawer o achosion, mae staff ysgolion arbennig sydd â'r arbenigedd yn gweithio ochr yn ochr â staff prif ffrwd eraill ac yn modelu ffyrdd o weithio y mae angen iddynt eu mabwysiadu i wella eu harfer a'r canlyniadau ar gyfer disgyblion. Fel hyn, mae staff ysgolion arbennig nid yn unig yn rhannu eu harbenigedd ond maent yn cynyddu medrau staff prif ffrwd fel bod ganddynt yr hyder a'r wybodaeth i gynnig y cymorth penodol i ddisgyblion sydd ei angen arnynt.

57 Mewn un ysgol arbennig, mae staff sy'n arbenigo mewn disgyblion y blynyddoedd cynnar sydd ag anghenion dwys a chymhleth ac anawsterau cyfathrebu, gan gynnwys awtistiaeth, yn awr yn ymweld ag ysgolion prif ffrwd unwaith yr wythnos i roi cymorth, cyngor ac arweiniad unigol i ddisgyblion, staff ystafell ddosbarth a rhieni. Mae'r staff wedi cynllunio'r gwaith hwn yn ofalus fel ei fod yn gwella arfer staff prif ffrwd, ac fel eu bod wedi'u paratoi'n well i weithio'n gynhyrchiol gyda'r disgyblion hyn a gwella eu canlyniadau. Mae staff prif ffrwd hefyd yn ymweld â'r ysgol arbennig i arsylwi staff yr ysgol arbennig yn modelu arfer dda.

58 Mae staff mewn ysgol arbennig arall a’u ALl wedi defnyddio cyllid ‘datgloi’r potensial’ yn dda iawn i ymestyn darpariaeth allymestyn ar gyfer plant y blynyddoedd cynnar sydd ag anawsterau iaith yn y cyfnod Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, ac i wella medrau staff ysgolion prif ffrwd. Mae’r prosiect gwerthfawr hwn yn rhoi cymorth wedi’i dargedu i leoliadau prif ffrwd. Mae cynorthwywyr addysgu arbenigol o’r ysgol arbennig yn cynnal grwpiau iaith ar gyfer y disgyblion hyn bedair gwaith yr wythnos am chwe wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, maent yn modelu arfer dda mewn datblygu iaith ac yn cynnig hyfforddiant hefyd. Caiff staff eu helpu hefyd i ysgrifennu targedau priodol yng nghynlluniau addysg unigol disgyblion ac fe gânt gyngor ar sut i baratoi adnoddau ar gyfer y sesiynau. Mae hyn yn golygu bod staff yr ysgol prif ffrwd yn dysgu’r medrau sydd eu hangen arnynt i barhau â’r gwaith pwysig hwn pan fydd y chwe wythnos wedi dod i ben. Mae rhieni a phenaethiaid yn gwerthfawrogi’r cymorth hwn yn fawr, ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Ceir rhai enghreifftiau o ddisgyblion sydd wedi gwneud cynnydd mor dda fel nad oes angen y ddarpariaeth arnynt mwyach.

59 Mae staff o dair ysgol arbennig mewn un ALl yn awr yn gallu cymryd rhan mewn adolygiadau blynyddol, trafodaethau gyda rhieni/gofalwyr am gyflawniad eu plant ac yn cyfarfod gyda chydlynwyr anghenion addysgol arbennig (cydlynwyr AAA) a seicolegwyr addysg i drafod achosion. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant. Cyn y cyllid, roedd y gwaith allymestyn wedi’i gyfyngu i gyswllt gydag athrawon mewn ysgolion prif ffrwd ar sail ymgynghorol.

60 Mae un ALl, nad oes ganddo unrhyw ysgolion arbennig, wedi defnyddio cyllid ‘datgloi’r potensial’ i gyflogi dau gynorthwyydd cymorth cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad i gefnogi, cynghori ac arwain disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Gall ysgolion gysylltu â’r cynorthwywyr hyn pan fyddant yn cael anawsterau a phan fyddant ar fin cyfeirio disgyblion am asesiad statudol i ddiwallu eu hanghenion.

Cyflwyno hyfforddiant i ystod o leoliadau a gwasanaethau

61 Mae defnyddio cyllid ‘datgloi’r potensial’ wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ba mor dda y mae staff ysgolion prif ffrwd yn cael mynediad at hyfforddiant priodol er mwyn iddynt allu gwella eu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

62 Mae llawer o’r prosiectau yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant, yn bennaf gan staff ysgolion arbennig i staff ysgolion prif ffrwd. Mae’r defnydd gofalus hwn o arbenigedd ‘mewnol’ yn golygu nad oes angen i ysgolion wastraffu mwy o amser ac arian yn chwilio am hyfforddiant drud yn rhywle arall. Mae’r hyfforddiant hwn hefyd yn amrywio’n eang ac yn cael ei werthfawrogi’n fawr gan staff ysgolion prif ffrwd. Mae rhai prosiectau yn agor eu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol eraill yn yr awdurdod. Er enghraifft, mae un gwasanaeth cymorth awtistig yn cynnig ei hyfforddiant i’r holl asiantaethau allanol a rhieni.

63 Mae’r athro arbenigol ar gyfer awtistiaeth mewn un ysgol arbennig yn awr yn cael ei gydnabod gan staff addysg yn yr ALl fel yr unigolyn gorau i allu cynnal hyfforddiant cyfathrebu estynedig ar gyfer athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu.

64 Mewn un ALl, ar hyn o bryd, mae ei wasanaeth effeithiolrwydd addysg yn cynnal archwiliad o fedrau staff ysgolion arbennig yr ALl. Bydd hyn yn cael ei gadw ar gronfa ddata er mwyn rheoli hyfforddiant yn fwy effeithiol ar draws yr ALl. Caiff y gronfa ddata ei diweddaru bob blwyddyn.

65 Yn yr un ALl, gall staff addysg o ysgolion prif ffrwd a rhieni gael mynediad at ystod eang o gyrsiau ar awtistiaeth sy’n cael eu cyflwyno gan staff o uned awtistig. Mae’r rhain yn cynnwys gweithdai ar y system cyfnewid lluniau (PECS) i gefnogi cyfathrebu, syndrom Asperger, defnyddio storïau cymdeithasol a chreu gemau i gefnogi datblygiad medrau allweddol ar gyfer disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA).

Rhannu adnoddau arbenigol

66 Mae llawer o’r prosiectau wedi arwain at rannu adnoddau yn aml yn anffurfiol o ganlyniad i berthynas a gafodd ei meithrin yn ddiweddar rhwng staff ysgolion prif ffrwd a staff ysgolion arbennig. Ceir enghreifftiau da iawn o staff yn dod at ei gilydd i ddyfeisio cyrsiau neu becynnau adnodd i ddiwallu anghenion penodol disgyblion. Fodd bynnag, ychydig iawn o enghreifftiau a geir o brosiectau sydd wedi mynd ati i greu cronfa adnoddau.

67 Mae un ysgol arbennig yn benthyca ei deunyddiau INSTEP i’w phartneriaid prif ffrwd. Mae hyn yn helpu iddynt asesu lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn gywir a phenderfynu sut y gellir diwallu eu hanghenion. Mae gan ddwy ysgol arbennig becynnau adnoddau hyfforddi wedi’u teilwra i gefnogi ysgolion prif ffrwd yn eu gwaith lleferydd ac iaith. Caiff y rhain eu benthyca yn ystod eu hyfforddiant ond maent ar gael i’w prynu pan fydd yr hyfforddiant wedi gorffen.

68 Mae un ysgol arbennig fawr yn trefnu bod ei hystafelloedd dosbarth, ei gardd ffydd a’i bws mini ar gael i ysgolion prif ffrwd lleol a’r uned cyfeirio disgyblion. Mae disgyblion prif ffrwd wedi gwella’r cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith trwy weithio ym musnes glanhau ceir yr ysgol arbennig, eu caffi a’u siop masnach deg.

69 Mae un ysgol arbennig wedi gweithio gyda’i choleg lleol ac ysgol gyfun i gyfoethogi dysgu galwedigaethol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn wedi arwain at ddau gwrs achrededig mewn garddwriaeth ac electroneg.

70 Mae ysgol arbennig arall wedi defnyddio cyllid ‘datgloi’r potensial’ i ddatblygu canolfan adnoddau gynhwysfawr ar gyfer pob ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn yr ALl. Mae dwy ysgol arbennig a chyfleuster addysgu arbenigol yn yr un ALl wedi datblygu llyfrgelloedd ac yn darparu pigion DVD i ddangos sut gall staff prif ffrwd ennyn diddordeb pob disgybl mewn gweithgareddau a gwneud eu harfer yn fwy cynhwysol. Mae pob ysgol sy’n cymryd rhan yn y prosiect yn cael DVD a chryno ddisg gyda samplau o’r gwaith a wnaed, enghreifftiau o arfer dda, nodiadau cwrs a gwybodaeth gefndir.

Beth sydd wedi gweithio'n arbennig o dda?

71 Mae staff wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyllid, ac maent yn frwdfrydig amdano. Yn aml, mae wedi rhoi'r cyfle iddynt naill ai ymestyn gwaith presennol neu roi syniadau hirsefydledig ar waith. Ysgrifennodd un ymatebwr: 'mae'n siwr mai grant datblygu'r potensial yw'r peth gorau sydd wedi digwydd mewn addysg arbennig yng Nghymru ers amser maith'.

72 Ceir tystiolaeth bod llawer o'r gwelliannau mewn perthnasoedd ac ymddiriedaeth rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd yn awr yn sefydledig ac yn barhaol. Er enghraifft, dywedodd un pennaeth ysgol prif ffrwd a oedd yn cymryd rhan yn un o'r prosiectau,

> *"mae'r prosiect wedi sicrhau bod llwybr sylfaenol gyda hanes llwyddiannus ar gael ar gyfer ysgolion prif ffrwd. Mae'r gwelliant yn ymglymiad yr ysgol arbennig yn y panelau ymddygiad a chyfraniad eu harbenigedd a'u dewisiadau o ddarpariaeth ar waith yn barhaol erbyn hyn. Hefyd, ni fydd y cysylltiadau da a sefydlwyd rhwng seicolegwyr addysg, cydlynwyr AAA prif ffrwd a'r gwasanaethau cymorth ymddygiad yn diflannu".*

73 Mae llawer o dystiolaeth anecdotaidd bod y cyllid hwn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ganlyniadau addysgol a chymdeithasol disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion mewn ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd. Ceir cyswllt cynyddol rhwng disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion ysgolion prif ffrwd ddod i ddeall materion anabledd yn well. Mae llawer o ddisgyblion ysgolion arbennig wedi cael cyfleoedd ehangach i ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd a chyfarfod â'u cyfoedion yn y brif ffrwd a gweithio gyda nhw, a chael cwricwlwm gwell.

74 Mae'r cyllid wedi helpu ALlau a'r rhan fwyaf o ysgolion arbennig i rannu arfer dda yn eu hardal a datblygu strategaethau mwy cynhwysol i integreiddio a chadw llawer o ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd a fyddai fel arall yn cael eu cyfeirio i ysgolion arbennig.

75 Mae staff ysgolion arbennig wedi elwa ar y cyfle i rannu eu harbenigedd ac mae hyn wedi golygu eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned addysg leol a bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi gan eraill. Maent hefyd wedi ennill arbenigedd yn y cwricwlwm yn sgil eu cysylltiadau cryfach â'u cydweithwyr yn y brif ffrwd. Ceir cydweithio cynyddol rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol ar draws ffiniau traddodiadol.

76 Mae staff ysgolion prif ffrwd a rhieni wedi elwa ar ystod eang iawn o hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan staff ysgolion arbennig ac mewn rhai achosion, mae'r hyfforddiant hwn wedi cael ei gynnig i asiantaethau eraill yn yr awdurdod lleol.

Beth sydd ddim wedi gweithio cystal?

77 Er bod meysydd i'w gwella, maent yn bennaf ar lefel strategol ac yn gysylltiedig â rheoli cyllid a'i fonitro a'i arfarnu. Er bod bron pob un o'r 18 ALl a ymatebodd yn cael adroddiadau a diweddariadau rheolaidd, at ei gilydd, nid yw'r prosiectau bob amser yn cael eu monitro a'u harfarnu mor drylwyr ag y dylent. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif bach o brosiectau sydd ddim wedi gweithio cystal ag y gallent fod wedi gwneud. Lle mae hyn wedi digwydd, y rheswm am yw nad yw'r cyllid wedi cael ei reoli na'i ddyrannu'n ddigon gofalus yn unol â nodau ac amodau'r grant. Nid oes gan un ALl unrhyw fonitro ffurfiol ar waith. Mewn dau achos, nid oedd yr ALl yn gwybod faint o staff na disgyblion oedd yn cymryd rhan yn y prosiectau.

Sut caiff y cyllid ei reoli a'i ddyrannu

78 Mae'r rhan fwyaf o ALlau wedi cysylltu'r cyllid hwn yn ofalus iawn â'u strategaethau cynhwysiad. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o'r cyllid hwn bob amser yn cael ei olrhain yn ddigon clir yn y cynlluniau newydd ar gyfer plant a phobl ifanc.

79 Mae rheolaeth ar y cyllid yn rhy amrywiol, sy'n amrywio mewn rhai achosion o'r ALl yn cynnal rheolaeth ganolog i'r ysgol arbennig yn cael yr holl gyllid. Mewn un awdurdod, mae'r ffaith fod y cyllid yn cael ei reoli gan dri swyddog gwahanol wedi arwain at anhawster yn cynnal ffocws. Ni wnaeth ALl arall ymgynghori â'i ysgolion arbennig o gwbl ynglŷn â defnyddio'r cyllid.

80 Lle nad yw rhai ysgolion arbennig wedi rheoli na chael y cyllid yn uniongyrchol, maent wedi teimlo nad ydynt wedi perchnogi'r prosiect na chael eu cynnwys digon ynddo. Nid oedd un prosiect yn cynnwys unrhyw waith gydag ysgolion prif ffrwd lleol.

81 Mae dwy ysgol arbennig yn defnyddio'r arian er budd eu disgyblion eu hunain yn y lleoliad ysgol arbennig. Maent yn cyfiawnhau diffyg ymglymiad ysgolion prif ffrwd trwy ddweud bod angen iddynt ganolbwyntio ar wella'r cydweithio rhwng y ddwy ysgol arbennig. Ni wnaeth hyn unrhyw beth newydd i ddatgloi potensial yr ysgol arbennig ar gyfer lleoliadau prif ffrwd.

82 Nid oedd un ALl, a oedd yn rheoli'r cyllid yn ganolog, yn ddigon hyderus yng ngallu ei ysgolion arbennig i ddatblygu eu prosiectau eu hunain ac roedd o'r farn na fyddai'r ysgolion yn gallu meddwl am unrhyw beth newydd.

83 Mae rhai ysgolion arbennig yn anhapus â'r ffordd yr oedd eu ALlau yn dyrannu'r cyllid oherwydd na chawsant gyfle i fod yn rhan o'r cynllun peilot. Mae yna rai ysgolion arbennig eraill na roddwyd digon o gyfle iddynt gael eu cynnwys o ran dechrau a chynllunio'r cynllun peilot, er gwaethaf y ffaith eu bod yn rhan ohono. O ganlyniad, mae eu synnwyr o berchnogaeth o'r prosiect yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae ALl un o'r ysgolion hyn yn cydnabod bod y rheolaeth ganolog hon wedi golygu nad oes gan yr ysgol arbennig berchnogaeth lawn o'r prosiect y mae wedi bod yn gysylltiedig ag ef.

Cyfleoedd i rannu arfer dda mewn ysgolion ac ALlau a ledled Cymru

84 Ceir rhai enghreifftiau o rannu’r arfer dda o’r prosiectau. Mae un ysgol wedi cynhyrchu DVD gwerthfawr i esbonio mentrau ‘datgloi’r potensial’ i ysgolion partner yn yr awdurdod.

85 Mae cynlluniau i ddarparu gwefan at ddefnydd athrawon ar draws sawl ALl mewn rhanbarth i rannu arfer dda a syniadau. Fodd bynnag, nid yw’r cynlluniau hyn wedi cael eu rhoi ar waith eto.

86 Mae penaethiaid ysgolion arbennig mewn rhwydwaith cydnabyddedig mewn un ardal yng Nghymru wedi rhannu eu harfer â’i gilydd. Sefydlodd un ALl grŵp rhwydweithio ‘datgloi’r potensial’ i ALlau gyfnewid gwybodaeth a rhannu adnoddau hyfforddi a medrau. Mae’r grŵp penaethiaid ysgolion arbennig Cymru gyfan wedi cael cyflwyniadau am rai o’r prosiectau.

87 Fodd bynnag, at ei gilydd, mae gormod o staff mewn ysgolion yn gweithio ar wahân mewn perthynas â defnyddio cyllid ‘datgloi’r potensial’. Nid yw llawer o’r staff a oedd yn cymryd rhan yn uniongyrchol yn y gwaith hwn yn eu hysgol eu hunain yn gallu cyfeirio at arfer yn unman arall, naill ai yn eu hardal leol neu’r tu hwnt.

Monitro ac arfarnu effaith y cyllid

88 Mae ystod eang a natur amrywiol y prosiectau yn ei gwneud yn anodd i ALlau ac ysgolion wybod pa mor dda y mae’r prosiectau wedi effeithio ar gynnydd y disgyblion yn gyffredinol. Mae prosiect cyllid ‘datgloi’r potensial’ un ALl yn gweithio ar y mater hwn. Mae’r prosiect wedi’i seilio mewn ysgol arbennig lle mae staff yn casglu data at ddibenion trosglwyddo i roi gwybodaeth i’r ALl yn sgil olrhain cynnydd disgyblion.

89 Mae ALlau ledled Cymru wedi’i gwneud yn ofynnol i’r prosiectau ddarparu adroddiadau cynnydd gofalus, manwl a rheolaidd a chadw at eu cynigion gwreiddiol. Defnyddiodd un ALl ymgynghorydd allanol i arfarnu’r prosiectau ar ôl y flwyddyn gyntaf. Mae ALl arall yn gofyn i athrawon prif ffrwd sydd wedi cael hyfforddiant i adrodd yn ôl ar effaith y mae’r hyfforddiant wedi’i chael ar eu hysgol. Mae rheolwr anghenion arbennig un ALl yn ymweld ag ysgol arbennig unwaith bob pythefnos ac yn cael adborth anffurfiol.

90 Mae’n ofynnol i ysgolion sy’n cael cyllid ‘datgloi’r potensial’ mewn un ALl ddarparu adroddiadau ariannol llawn ac arfarniadau o’r prosiectau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae’r adroddiadau hyn yn amlinellu sut caiff y cyllid ei wario a’r canlyniadau a gyflawnir. Maent hefyd yn cynnwys adborth gan staff, rhieni ac asiantaethau allanol. Lle bo’n berthnasol, maent yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd disgyblion.

Cynllunio i gynnal manteision y prosiectau

91 Mae’r cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd y gwaith prosiect pan ddaw’r cyllid i ben yn wan. Nid yw’r rhan fwyaf o ALlau ac ysgolion wedi cynllunio eu strategaethau ymadael na ffyrdd o ymgorffori dulliau llwyddiannus o weithio yn y dyfodol. Nid yw llawer o adroddiadau cynnydd prosiectau yn ystyried sut bydd manteision prosiectau yn cael eu cynnal. Mae bron pob ALl ac aelod o staff yn gwybod beth sydd wedi

gweithio'n dda a'r hyn y maent yn dymuno ei gynnal, ond yn aml, nid ydynt yn gallu gweld ffordd hyfyw ymlaen ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r prosiect heb gyllid ychwanegol.

92 Dewisodd rhai ALlau y prosiectau penodol oherwydd eu bod yn gynaliadwy ac felly nid oedd yn rhaid iddynt ddatblygu strategaeth ymadael. Fodd bynnag, mae llawer o ALlau a staff ysgolion yn bryderus ynglŷn â chynaliadwyedd yr hyn y maent yn ei ystyried yn atebion gwerthfawr a chreadigol iawn ar gyfer gwneud i gynhwysiad weithio. Er enghraifft, anawsterau cynnal staff ychwanegol a gyflwynir trwy'r cyllid pan fydd y cyllid yn gyllid tymor byr ac yn gyfyngedig.

93 Lle mae prosiectau wedi canolbwyntio ar hyfforddiant ar gyfer staff ac adeiladu cronfa adnoddau, mae ALlau ac ysgolion yn cydnabod bod y canlyniadau da yn debygol iawn o gael eu cynnal. Dywedodd un ALl fod y prosiectau gwella capasiti yn gadael etifeddiaeth barhaus yn yr ysgolion sydd wedi'u targedu er y byddai'n fuddiol cyflwyno'r prosiect yn raddol i fwy o ysgolion. Fodd bynnag, lle mae prosiectau yn dibynnu ar benodi staff ychwanegol, bydd yn fwy anodd cynnal cynnydd.

94 Er mwyn cynnal y manteision o'r cyllid, mae un ALl wedi sefydlu grwpiau clwstwr anghenion dysgu ychwanegol ar gyfer ei ysgolion arbennig, ei ysgol uwchradd leol a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo.

Materion cysylltiedig

95 Roedd dau ALl yn gweld y fiwrocratiaeth sy'n amgylchynu'r cyllid yn ddi-fudd. Dywedodd un ALl nad oedd ei ysgolion arbennig yn deall yn llawn bod y cyllid wedi'i gynllunio i helpu athrawon mewn ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol trwy ddefnyddio arbenigwyr o ysgolion arbennig sy'n rhannu eu harbenigedd gyda staff prif ffrwd. Yn yr ALl hwn, mae llawer o ddisgyblion a oedd yn cael eu cefnogi gan gymorth allymestyn bellach naill ai'n mynychu'n amser llawn neu'n rhan-amser yn yr ysgol arbennig yn hytrach nag aros mewn ysgol prif ffrwd.

96 Mewn rhai ysgolion, lle'r oedd staff yn teimlo bod cynnydd yn y prosiectau yn gyfyngedig, rhoddwyd y rhesymau canlynol:

- y gwaith ychwanegol yn sgil arolygiad Estyn, a ddigwyddodd yn ystod y cynllun peilot;
- absenoldeb staff;
- yr amser ychwanegol sydd ei angen ar gyfer rheoli a gwaith gweinyddol;
- uwch staff ddim yn cael eu rhyddhau i reoli, hyfforddi a chymell staff a threfnu'r gwasanaethau y gallai'r ysgol eu cynnig; ac
- amharodrwydd nifer fach o ysgolion cynradd prif ffrwd i groesawu'r agenda cynhwysiad mewn perthynas â phlant ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiad.

97 Cafodd staff a oedd wedi bwriadu datblygu mwy ar y gwaith a gyflwynwyd iddynt yn sgil y cyllid eu siomi gan y ffaith fod cyllid Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i athrawon wedi dod i ben yng nghanol y cylch. Roeddent wedi bwriadu gwneud cais am gael defnyddio’r cyllid hwn er mwyn galluogi iddynt barhau â’u gwaith, ac mae hyn, yn eu barn nhw, wedi rhwystro eu cynlluniau.

Atodiad 1: Astudiaethau achos yn dangos arfer dda

1 Gweithio gyda gwasanaethau iechyd a'r sector gwirfoddol i greu gwasanaeth cymorth cyn-ysgol i deuluoedd

ALl ac ysgol arbennig yn ne ddwyrain Cymru

Mae'r ALl hwn yn ystyried bod y 'canolfannau rhagoriaeth blaengar' yn rhan hanfodol o'i strategaeth cyflawniad a chynhwysiad. Mae'r ysgol arbennig yn gweithio gyda disgyblion rhwng 3 a 19 oed sydd ag anghenion dysgu cymhleth.

Nododd yr ysgol a fforwm y blynyddoedd cynnar, sef grŵp amlasiantaeth, fwlch yn y ddarpariaeth a gwnaethant weithio ar y cyd â gweithwyr iechyd proffesiynol, fel y dietegydd paediatreg a therapyddion iaith a lleferydd a'r sector gwirfoddol, fel y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol dros Bobl Fyddar a'r Gymdeithas Genedlaethol dros Blant Byddar, i sefydlu canolfan deuluoedd i'r rheiny sydd â phlant oed y blynyddoedd cynnar ag anghenion cymhleth iawn.

Mae'r ganolfan yn darparu cymorth ac ymyrraeth gynnar i blant ifanc iawn sydd ag anghenion cymhleth. Nid oes rhaid iddynt symud ymlaen i fynychu dosbarth meithrin yr ysgol arbennig o reidrwydd. Mae'r ganolfan hon yn darparu lleoliad a rhaglenni o weithgareddau sy'n cael eu cytuno gyda'r rhieni/gofalwyr ac yn cael eu llunio'n ofalus i'w cefnogi a'u helpu i ennyn diddordeb eu plant. Mae rhieni/gofalwyr yn cael cymorth un-i-un gwerthfawr a chyfleoedd da i gyfarfod ac i rannu materion gyda theuluoedd eraill.

Mae hyn yn lleihau eu teimladau o unigedd ac yn eu helpu i gyfathrebu'n fwy effeithiol â'u plant.

2 Ymestyn a gwella'r gwasanaeth allgymorth

ALl ac ysgolion arbennig yng nghanolbarth Cymru

Mae'r awdurdod hwn wedi defnyddio cyllid 'datgloi'r potensial' yn llwyddiannus i wella'r cysylltiadau rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd. Gwnaethant ddefnyddio arbenigedd pennaeth un o'r ysgolion arbennig, a ddefnyddiodd y gwaith hwn i gefnogi gradd meistr, i arwain y gwaith datblygiadol.

Mae staff ysgolion arbennig yn mynychu adolygiadau blynyddol mewn ysgolion prif ffrwd, yn cynnal trafodaethau â rhieni ac yn cyfarfod â seicolegwyr addysg a Chydlynwyr AAA i drafod achosion. Maent yn helpu staff mewn ysgolion prif ffrwd i baratoi gwersi sy'n bodloni anghenion a galluoedd yr holl ddisgyblion ac yn eu gwahodd i'r ysgolion arbennig i weld gwersi enghreifftiol ar waith.

Mae'r ymestyniad hwn o'r gwasanaeth wedi arwain at fwy o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth yn eu hysgolion prif ffrwd ac ystod ehangach o gymorth yn cael ei gynnig. Mae'r prosiect hefyd wedi datblygu cysylltiad rheolaidd rhwng ystod o staff, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol a'r gwasanaethau cymdeithasol.

3 Cydweithio â staff mewn canolfannau adnoddau sydd ynghlwm wrth ysgolion prif ffrwd er mwyn gwella eu harfer

All ac ysgolion arbennig i ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol a lluosog yn ne orllewin Cymru

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar helpu staff mewn canolfannau adnoddau ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd i ddefnyddio enghreifftiau penodol o arfer gynhwysol o ansawdd yn eu lleoliadau eu hunain. Mae staff yr ysgol arbennig yn hyfforddi staff prif ffrwd ac yn dangos enghreifftiau o'r arfer dda sy'n cael ei defnyddio, ynghyd â ffilmio sesiynau a chanolbwyntio ar arsylwi ymatebion disgyblion. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio ar ddulliau o fesur cynnydd disgyblion, sy'n cael eu mabwysiadu gan yr ysgolion sy'n cymryd rhan.

Mae staff yr ysgol arbennig yn darparu cyrsiau ymarferol, sy'n arwain at ysgolion yn datblygu adnoddau, er enghraifft sachau synhwyraidd, ac yn ennill y medrau i barhau i ddatblygu'n greadigol yn ôl yn eu canolfannau.

Mae'r ysgol arbennig yn gweithredu fel hwylusydd er mwyn i athrawon yr ALl ennill diploma i raddedigion mewn addysgu disgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol a lluosog. Mae'r ysgol arbennig wedi datblygu llyfrgell gynhwysfawr ar gyfer benthyg adnoddau.

Mae staff yr ysgol arbennig wedi ennill balchder mawr yn eu gwaith ac, erbyn hyn, gallant roi eu gwaith mewn cyd-destun ehangach. Mae disgyblion yn y canolfannau adnoddau wedi cael budd o wybodaeth, medrau a dealltwriaeth gynyddol y staff sy'n gweithio gyda nhw.

4 Gweithio i wella cyfleoedd cwricwlaidd a chyfleoedd cyfoethogi i ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd

ALl ac ysgol arbennig yng ngogledd ddwyrain Cymru

Mae'r prosiect hwn yn cydweithio â gweithwyr proffesiynol o ystod o asiantaethau, fel y coleg lleol a'r tîm troseddau ieuenctid, i ddarparu ystod dda o ddewisiadau ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n ei chael yn anodd gwneud cynnydd ac sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'u hysgolion prif ffrwd.

Mae'r aelod staff o'r ysgol arbennig sy'n cydlynu'r prosiect yn eistedd ar baneli ymddygiad yr ALl ac yn rhoi cymorth uniongyrchol pa bryd bynnag y mae argyfwng ac mae disgyblion ar fin colli eu lle mewn ysgolion prif ffrwd. Mae'r cymorth hwn yn cael ei gydweddu'n dda i fodloni anghenion disgyblion unigol. Er enghraifft, gallant fynychu'r ysgol arbennig am gyfnod byr tra bod staff yn gweithio gyda nhw i'w helpu i ddysgu sut i reoli eu hymddygiad, neu gallant gael cymorth un-i-un yn eu hysgol brif ffrwd.

Mae'r ysgol arbennig wedi datblygu rhaglen cyfoethogi'r cwricwlwm sy'n cynnig cyfle i ddisgyblion prif ffrwd, sydd wedi'u hymddieithrio, i fynychu coleg lleol ac ennill cymwysterau lefel mynediad.

Mae disgyblion ysgolion cynradd yn cael cyfle da i fynychu'r ysgol arbennig ac i weithio yng ngardd ffydd yr ysgol. Mae staff yr ysgol arbennig a staff prif ffrwd wedi cydweithio â'i gilydd i lunio adnoddau a deunyddiau, gan gynnwys llyfr gwaith yn y Gymraeg.

Mae staff yr ysgol arbennig 'yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi erbyn hyn a'u bod yn rhan o sbectrwm eang o adnoddau sydd ar gael yn yr awdurdod lleol'. Mae disgyblion cynradd wedi ennill cyfleoedd cwricwlaidd ehangach ac mae disgyblion sydd wedi'u hymddieithrio wedi cael cyfle i ddechrau o'r newydd ac i ennill achrediad.

5 Grymuso staff mewn lleoliad prif ffrwd i reoli a darparu ar gyfer ei myfyrwyr sydd ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASD) yn effeithiol

ALl ac ysgol arbennig yn ne ddwyrain Cymru

Ffocws y prosiect hwn yw gwella gallu staff mewn ysgolion prif ffrwd i ddarparu ar gyfer disgyblion ag ASD. Mae'r ysgol arbennig wedi cydweithio'n agos iawn â'r ALl i greu gwasanaeth allgymorth i roi cyngor ac arweiniad i leoliadau prif ffrwd ac i deuluoedd disgyblion ag ASD.

Mae'r tîm staff yn cynnwys athro mewn gofal, cynorthwyydd addysgu, cynorthwy-ydd cefnogi cyfathrebu a gweithiwr cymorth cartref. Nod y gwasanaeth yw darparu ymagwedd amlasiantaeth gydgysylltiedig tuag at reoli'r agweddau mwy heriol ar ASD a rhoi mwy o ddealltwriaeth a chysondeb i'r disgyblion hyn ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Mae staff ysgolion prif ffrwd wedi cael ystod hyblyg o hyfforddiant a luniwyd yn ofalus i gyd-fynd â'u hamserlenni. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys sesiynau gyda'r hwyr ar gyfer staff addysgu, sesiynau prynhawn byr ar gyfer goruchwylwyr amser cinio a staff gweinyddol a sesiynau diwrnod llawn ar gyfer ysgolion sy'n ymroddedig i fod yn amgylcheddau sy'n ystyriol i ddisgyblion ag ASD.

Gall gweithwyr proffesiynol o'r holl asiantaethau ar draws yr awdurdod wneud atgyfeiriadau i'r gwasanaeth. Mae staff y gwasanaeth wedi cydweithio â'r tîm chwaraeon anabledd i godi eu hymwybyddiaeth o anghenion y bobl ifanc hyn. Maent hefyd yn darparu 'cymorthfeydd' ar gyfer staff y gwasanaethau cymdeithasol, fel y gallant gynnig gwasanaeth gwell i'r bobl ifanc hyn. Mae cymorth cartref dwys yn cael ei roi i rieni/gofalwyr am ychydig wythnosau fel y gallant reoli ymddygiad arbennig o heriol heb gymorth gweithwyr proffesiynol.

Mae ysgolion wedi rhoi gwybod am ganlyniadau cadarnhaol iawn mewn perthynas â chynnydd, medrau dysgu ac ymddygiad disgyblion. Erbyn hyn, mae staff mewn ysgolion prif ffrwd yn fwy cadarnhaol ynghylch gweithio gyda disgyblion ag ASD, ac mae'r rhieni yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth.

Geirfa

Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae'r term hwn yn cwmpasu ystod eang iawn o anghenion. Rydym yn defnyddio'r term ADY mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion heblaw'r rheiny sydd gan y rhan fwyaf o'u cyd-ddisgyblion, am nifer o wahanol resymau, gan gynnwys dysgwyr:

- sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA), fel y diffiniwyd yng Nghod Ymarfer AAA Cymru (2002);
- sy'n anabl, fel y diffiniwyd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;
- sydd ag anghenion meddygol;
- sydd ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (AYECh);
- sy'n fwy galluog a thalentog na'u cyd-ddisgyblion; ac
- sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Anhwylderau y sbectrwm awtistig (ASD)

Mae'r term Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r grŵp o anhwylderau datblygiadol treiddiol sy'n cael eu nodweddu gan anawsterau yn rhyngweithio'n gymdeithasol a chyfathrebu a chan ymddygiad a diddordebau ailadroddol.

Cydlynydd AAA Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig; athro/athrawes sy'n cydlynu gwaith ysgolion i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

INSTEP System o asesu ac olrhain cynnydd disgyblion sy'n gweithio islaw lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol sydd wedi'i seilio ar raddau P y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Makaton Mae hon yn system gyfathrebu sy'n defnyddio geirfa o 'eiriau allweddol' ar ffurf arwyddion ac ystumiau i gefnogi iaith, yn ogystal â symbolau graffig i gefnogi geiriau ysgrifenedig. Caiff ei defnyddio gan bobl sydd ag anawsterau cyfathrebu, iaith neu ddysgu.

PECS Mae'r System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS) yn ddull cyfathrebu cryfhaol ac amgen. Fel arfer, caiff ei defnyddio i helpu plant ag awtistiaeth ac anghenion arbennig eraill i gyfathrebu.

Tîm arolwg yr adroddiad cylch gwaith

Claire Yardley AEM	Arolygydd arwain
Mike Munting AEM	Aelod o dîm yr arolwg
Gwen Davies AY	Aelod o dîm yr arolwg
Iwan Roberts AY	Aelod o dîm yr arolwg